Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 335 – 15 Gorffennaf 2010
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2010.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 334

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 334.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd JWJ ei adroddiad.
Nododd bod yr Awdurdod wedi cyfarfod a chael cyflwyniad ar Ganllawiau Iaith Rhaglenni S4C, a bod yr Awdurdod yn bwriadu adolygu'r canllawiau presennol.

Roedd Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol S4C ar gyfer 2009 wedi ei gyflwyno i'r Senedd, ac wedi ei gyhoeddi. Diolchodd i swyddogion am baratoi'r adroddiad.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd IJ ei hadroddiad.

Y Gyllideb
Cyflwynodd ddiweddariad ar waith swyddogion ar gyllideb S4C. Roedd y gwaith yn ceisio sicrhau bod gweithdrefnau S4C yn addas ar gyfer y dyfodol. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud gan y swyddogion, a bydd yr Awdurdod yn ystyried canlyniadau'r gwaith eto yn ystod y flwyddyn.

Gwasanaeth Manylder Uchel
Nododd bod trafodaethau yn parhau parthed datblygiadau ym maes manylder uchel

Partneriaeth Strategol gyda'r BBC
Nododd IJ bod y trafodaethau yn parhau gyda'r BBC, a bod y Cadeirydd wedi ysgrifennu at gadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC, ac yn edrych ymlaen at gynnal cyfarfod yn fuan.

Materion Masnachol
Cyflwynodd IJ adroddiad ar agweddau o weithgareddau masnachol S4C.

Adroddiad Effaith Economaidd S4C
Esboniodd bod y gwaith o baratoi'r adroddiad yn parhau, a bod disgwyl derbyn adroddiad drafft erbyn yr hydref.

4. Materion Eraill
Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad Cyllid Misol
- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Cyflwyniad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu
- Adroddiad Ymchwil
- Adolygiad yr Awdurdod o lywodraethiant gorfforaethol S4C